# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2019/20

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd:** Robert Llewelyn Jones
**Parti:** Annibynnwyr Môn **Ward:** Caergybi

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Crynodeb o Bresenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | Cofnod Presenoldeb |
| Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | |
| Pwyllgor Buddsoddi A Chontractau | |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (Cadeirydd) | |
| Pwyllgor Safonau - Panel Penodi | |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | |
| Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| Corff allanol | Crynodeb o rôl a chyfraniad |
|---|---|
| - Llywodraethwr / Ysgol Uwchradd Caergybi | Ysgol Uwchradd Caergybi |
| - Pencampwr Aelodau | Rydw i wedi mynychu Rhwydwaith Datblygu Aelodau'r WLGA ac wedi adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |

| | |
|---|---|
| - Pencampwr Pobl Hyn | Rydw i wedi mynychu nifer o gyfarfodydd rhwydwaith er mwyn hyrwyddo diddordebau pobl hyn |

**2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Rwy'n parhau i fod yn brysur iawn gyda nifer o ddigwyddiadau yn fy etholaeth ac wrth ymweld â phobl sy'n ei chael hi'n anodd datrys materion megis casglu gwastraff, pobl ag anghenion tai, pryderon amgylcheddol, problemau cyffuriau ac alcohol a fy ngwaith fel Henuriad yn fy nghapel annibynnol lleol yn Ffordd Llundain. Bob blwyddyn, fel Pencampwr Pobl Hŷn y Cyngor, mae gennyf nifer o gyfarfodydd i'w mynychu megis y Cyngor Pobl Hŷn a'r Fforwm Pobl Hŷn. Rwy'n Gadeirydd y Pwyllgor Democrataidd a bydd angen i mi fynychu cyfarfodydd y WLGA yn Ne Cymru ac adrodd yn ôl i aelodau'r Cyngor ar faterion a drafodwyd. Rwy'n mynychu cyfarfodydd Llywodraethwyr yn yr Ysgol Uwchradd ac yn mynychu nifer o ddigwyddiadau. Rwy'n ystyried y pryderon amgylcheddol y mae fy etholwyr yn pryderu amdanynt megis Coedwig Penrhos a Thraeth Newry. Pwnc arall sy'n bwysig iddynt yw materion Brexit ac rydw i wedi cymryd rhan mewn nifer o raglenni teledu a radio yn ymwneud â'r holl bynciau hyn. Rwy'n parhau i fynegi fy mhryderon am Wylfa a'r angen am gais cynllunio newydd os bydd o fyth yn dod o flaen y Cyngor yn y dyfodol gan fod yr holl broses o ddarparu ynni wedi newid mewn modd dramatig yn ystod y 15 mlynedd diwethaf. Rydym wedi byw â gorsaf niwclear ar ein hynys am lawer rhy hir ac rydym bellach yn cael seibiant, am ba mor hir pwy a ŵyr.

Rhaid i Gynghorydd fod yn fodlon rhoi ei holl amser ac ynni i'r etholwyr a bod yn barod ac yn gallu gwneud popeth o fewn ei allu i wasanaethu ei gymuned.

Heb os, bydd y cyfnod nesaf yn creu nifer o heriau o ganlyniad i Covid-19 a bydd hyn yn cael effaith am nifer o flynyddoedd. Bydd hi'n bwysig craffu er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau yn parhau i gyflawni ar gyfer trigolion Ynys Môn. Rydw i wedi parhau i weithio ag aelodau lleol eraill sy'n cynrychioli'r ward hon ac yn cydnabod fod y misoedd diwethaf wedi bod yn gyfnod trist iawn yn dilyn marwolaeth y Cynghorydd Shaun Redmond – ffrind a chydweithiwr am beth amser. Dwi'n gweld eisiau ei gefnogaeth a'i safbwyntiau doeth ar fusnes y Cyngor.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

**4 - Dysgu a Datblygu**

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn): Hyfforddiant

**5 - Gweithgareddau a Materion Eraill**

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma: Cynghorydd Robert Llewelyn Jones

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd Robert Llewelyn Jones** | **Gorffennaf 2020** |